

Cylchlythyr Trawsnewid ADY Ceredigion i Rieni Haf 2019



Gwasanaeth Partneriaeth Rhieni

Mae Ceredigion yn darparu gwasanaeth i rieni a gofalwyr i geisio cyngori a roi gwybodaeth i blant a phobl ifanc ag Anghenion Addysgol Arbennig / Dysgu Ychwanegol. Mae'n wasanaeth cyfrinachol am ddim sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth ddiuedd i rieni a gofalwyr plant ag Anghenion Addysgol Arbennig / Dysgu Ychwanegol. Mae'r Cydlynnydd Cefnogi Disgyblion a Theuluoedd AAA / ADY, Delor Harvey, ar gael i drafod materion dros y ffôn neu gyfarfod â rhieni / gofalwyr. Cynhelir sesiwn galw heibio i rieni unwaith y mis hefyd, lle gall rhieni / gofalwyr disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol alw heibio yng Nghanolfan Rheidol, Aberystwyth er gwybodaeth.

Cysylltwch â Delor Harvey: dros y ffôn 01545 570881 neu e-bostiwch pps@ceredigion.gov.uk

Ar gyfer pryderon yn ysgol eich plentyn byddem yn y lle cyntaf yn annog rhieni i gysylltu â'r Cydlynnydd Addysg Arbennig / Anghenion Dysgu Ychwanegol (CAAA / CADY) yn ysgol eich plentyn er mwyn trafod unrhyw bryderon. Os ydych chi'n teimlo bod gennych bryderon ac ymholiadau ar ôl siarad â Chydlynnydd AAA / Cydlynnydd ADY yr ysgol, cysylltwch â'r Cydlynnydd Cefnogi Disgyblion / Anghenion Addysgol Arbennig / ADY gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Rydym hefyd wedi ymrwmo i gefnogi teuluoedd trwy SNAP Cymru - elusen plant Cymru gyfan sy'n gweithio gyda theuluoedd ar faterion yn ymwneud ag Anghenion Addysgol Arbennig / Dysgu Ychwanegol (AAA / ADY) ac anabledau. Mae SNAP yn cynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth diduedd, cywir.

Cysylltwch â SNAP dros y ffôn ar: 0808 801 0608 neu e-bostiwch enquiries@snapcymru.org

Ymgynghoriad ar y cod ADY Drafft

Rhyddhawyd y cod ADY Drafft yn ôl ym mis Rhagfyr, ac roedd yn destun ymgynghoriad tan ddiwedd mis Mawrth. Yn ystod y cyfnod hwn, cynhaliwyd llawer o ddiwyddiadau ymgynghori ledled Ceredigion gan y tîm trawsnewid ADY a werthfawrogyd yn fawr. Cafodd yr holl ymatebion eu coladu a'u hanfon yn ôl ar ran Ceredigion i Lywodraeth Cymru. Mae'r ymatebion wedi'u coladu ac mae crynodeb ar gael i'w weld yn:

<https://gov.wales/draft-additional-learning-needs-code>

Rydym yn disgwyl i'r cod drafft terfynol gael ei ryddhau ym mis Rhagfyr 2019.

Hyfforddiant Ymarfer Person Canolog

Mae Ymarfer Person Canolog, sef ymarfer sy'n rhoi'r plentyn / person ifanc wrth wraidd yr holl drafodaethau a phenderfyniadau ynglŷn â nodi a diwallu eu hanghenion, yn rhan ganolog o ddiwygiadau ADY Llywodraeth Cymru. Ym mis Ionawr, cwblhaodd llawer o Gydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig yn ogystal â'r tîm Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol Rhaglen 'Hyfforddi'r Hyfforddwr' Ymarfer Person Canolog Helen Sanderson Associates. Ers mis Chwefror, cynhaliwyd nifer o raglenni hyfforddi person canolog dau ddiwrnod ledled y sir a byddant yn parhau tan ddiwedd

mis Gorffennaf. Erbyn diwedd tymor yr haf bydd cyfanswm o 15 o hyfforddwyr achrededig a fydd yn darparu hyfforddiant Person Canolig mewn lleoliadau addysg yng Ngheredigion. Ffocws yr hyfforddiant yw codi ansawdd adolygiadau person canolig, a sut i ddatblygu proffiliau un dudalen o ansawdd.

Dysgu gydag Awtistiaeth

Mae Dysgu gydag Awtistiaeth yn rhaglen a grëwyd gan ASD info Wales ac a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Ei nod yw datblygu ymwybyddiaeth Awtistiaeth ymhellach mewn lleoliadau addysgol. Mae sawl ysgol gynradd ac uwchradd yng Ngheredigion yn ogystal ag un lleoliad blynyddoedd cynnar eisoes wedi cyflawni'r Achrediad Dysgu gydag Awtistiaeth. Am fwy o wybodaeth a chefnogaeth i rieni ewch i:

<https://www.asdinfowales.co.uk/home/>

Blynyddoedd Cynnar

Mae llawer o leoliadau blynyddoedd cynnar wedi mynychu hyfforddiant Ymarfer Person-ganolog ac o ganlyniad maent wedi dechrau datblygu proffiliau un dudalen ar gyfer plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Bydd y proffiliau hyn gyda, chaniatâd rhieni, yn cael eu defnyddio i helpu i rannu gwybodaeth bwysig am y ffordd orau o gefnogi eu plentyn yn eu lleoliad presennol ac wrth drosglwyddo i'r ysgol.

Ôl-fynediad Ôl-16 - Darpariaeth Addysgol Arbenigol

Mae'r Cod ADY Newydd yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol sicrhau darpariaeth ar gyfer disgyblion a phobl ifanc o 0 - 25 oed. (3-19 ar hyn o bryd)

O fis Medi 2021 daw'r Awdurdod Lleol yn gyfrifol am sicrhau lleoliadau arbenigol newydd ar gyfer darpariaeth ôl-16 (trosglwyddir cyllid i Awdurdodau Lleol gan Llywodraeth Cymru o fis Ebrill 2021).

Ar hyn o bryd, caiff disgyblion ag anghenion difrifol a chymhleth eu haddysgu y tu allan i'r sir gan na fu unrhyw ddarpariaeth leol addas i gefnogi eu hanghenion. Fodd bynnag, efallai na fydd y lleoliadau hyn yn parhau i gael eu hariannu os yw'r asesiad yn dangos y gellir diwallu eu hanghenion trwy ddarpariaeth leol.

Mae hwn yn gyfle gwych a chyffrous i Geredigion ddatblygu a darparu darpariaeth ar gyfer pobl ifanc ag ADY ôl-19, o fewn yr Awdurdod Lleol. Canolbwyntir ar gynnal y ddarpariaeth yn lleol, gan alluogi ein pobl ifanc i ddatblygu ac aeddfedu yn eu cymuned.

Mae'r adran Anghenion Dysgu Ychwanegol o fewn y Gwasanaethau Ysgol yn datblygu mewn partneriaeth gyda Coleg Ceredigion a Chanolfannau dydd Ceredigion darpariaeth ôl-16 addas ar gyfer disgyblion ag anghenion difrifol a chymhleth cyn-fynediad. Y nod yw y bydd darpariaeth addysgol leol ar gael o fis Medi 2020 i bobl ifanc yng Ngholeg Ceredigion ac mewn canolfannau dydd lleol.

Bydd darpariaeth llety â chymorth / seibiant ar gyfer pobl ifanc hefyd yn cael ei ddatblygu, i sicrhau pecyn preswyl, gan gefnogi anghenion cyfannol pobl ifanc ag ADY sydd angen darpariaeth ôl-16 arbenigol a'u teuluoedd. Bydd y ddarpariaeth hon ar gael am ddwy / tair blynedd yn dibynnu ar anghenion y bobl ifanc gan eu galluogi i ddatblygu sgiliau yn eu cymuned leol.

Beth sy'n dod nesaf? - Gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Mae'r Gweinidog Addysg wedi cyhoeddi crynodeb o'r adroddiad ymateb sy'n cyflwyno dadansoddiad Llywodraeth Cymru o adborth o'r ymgynghoriad. Mae ymgynghoriad Llywodraeth Cymru - crynodeb o'r adroddiad ymateb ar gael trwy:

<https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2019-06/summary-of-responses-draft-additional-learning-needs-code.pdf>.

Mae Llywodraeth Cymru bellach yn ystyried pa newidiadau y gallai fod angen eu gwneud i'r Cod, y rheoliadau cysylltiedig arfaethedig a'r diwygiadau arfaethedig i God Rhan 6 a awgrymwyd gan ymatebwyr. Ar ôl eu cymeradwyo, bydd unrhyw newidiadau a'r rhesymau drostynt yn cael eu hesbonio yn y memoranda a fydd yn cyd-fynd â'r Cod a'r rheoliadau ADY terfynol. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu eu cymeradwyo gan y Cynulliad cyn diwedd 2019.

Yn dilyn cyhoeddi'r Cod ADY diwygiedig ym mis Rhagfyr 2019, bydd cyfnod gweithredu tair blynedd yn dechrau ym mis Medi 2020 gydag ymagwedd raddol orfodol at y system newydd. Bydd dysgwyr â Datganiadau presennol yn trosglwyddo i'r system newydd o fewn dwy flynedd, a phob dysgwr arall â chynlluniau anstatudol o fewn tair blynedd.

Bydd yr hen system yn dod i ben yn llwyr erbyn Haf 2023.